**MATERION CYLLIDEBOL AR GYFER 2003-04**

**Diben**

1. Bwriad y papur hwn yw rhoi cymorth i'r Pwyllgor wrth ymateb i gais y Gweinidog dros Gyllid am ymateb i'r Papur Comisiynu ar gyfer Cylch Cynllunio'r Gyllideb (copi yn **Atodiad A**).

**Cefndir**

2. Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid y sefyllfa'n gwbl glir, yn ei llythyr at Gadeiryddion y Pwyllgorau (copi yn **Atodiad B**) bod disgwyl, er mai blwyddyn Adolygu Gwariant y DU yw hon, y bydd setliad y Cynulliad yn heriol ac ni fyddai ryw lawer o newidiadau i waelodlinau 2003-04. Bydd y pwyslais felly ar addasu'r rhaglenni er mwyn cyflawni nodau hirdymor y Cynulliad, a hefyd ar sicrhau bod lefelau tanwario ar gyllidebau'r Cynulliad yn lleihau.

**Perfformiad yn Ystod 2001-02**

3. Mae'r gwariant yn erbyn rhaglenni ym mhrif grwp gwariant Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn 2001-02 wedi ei osod yn **Atodiad C**. Wrth gwrs, tarfwyd ar nifer o'r rhaglenni amaethyddol o ganlyniad i Glwy'r Traed a'r Genau - er enghraifft nid oedd swyddogion prosiect Tir Gofal wedi gallu ymweld â ffermydd am bum mis, ac yn ystod y cyfnod dim ond saith cytundeb a gwblhawyd - ac o ganlyniad dim ond 48 y cant o'r prif grwp gwariant Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (ac eithrio cynlluniau cefnogi marchnadoedd) a wariwyd yn 2001-02.

4. Serch hynny, cafwyd peth llwyddiant mewn nifer o feysydd allweddol yn ymwneud â'r ymrwymiadau yn *Rhoi Cymru'n Gyntaf*:

- rhoddwyd y Cynllun Adfer Cefn Gwlad ar waith ac yr oedd wedi gwario £34 miliwn erbyn 31 Mawrth 2002;
- sicrhawyd arian ychwanegol ar gyfer gweithredu Tir Mynydd a sefydlwyd arolwg o'r cynllun;
- agorwyd cynllun Grant Marchnata a Phrosesu ar gyfer ceisiadau o dan Amcan 1 a'r Cynllun Datblygu Gwledig (ar gyfer gorllewin a dwyrain Cymru yn eu tro);
- lansiwyd Cyswllt Ffermio ym mis Medi 2001 - rhyw chwe mis yn ddiweddarach nag y bwriadwyd ar y cychwyn - a chyflawnwyd y Cynlluniau Datblygu Busnes Fferm cyntaf;
- Cafwyd llwyddiant pellach wrth gyflawni targed y Cynulliad i weld 25% o dir amaethyddol yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, gyda mwy o gytundebau Tir Gofal a Chynllun Ffermio Organig yn cael eu harwyddo;
- Sefydlwyd mecanwaith apeliadau annibynnol i ddyfarnu mewn unrhyw anghydfod rhwng ffermwyr a'r Cynulliad;

- Cyflwynwyd deddfwriaeth i leihau pwysau costau glendid cig ar ladd-dai llai;
- Sefydlwyd grwpiau Strategaeth i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer coedtiroedd a biomas, pysgodfeydd a dyframaethu, a garddwriaeth.

**Blaenoriaethau a Phwysau ar gyfer y Tair Blynedd Nesaf**

5. Nodir gwariant 2002-03 ym mhrif grwp gwariant Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn **Atodiad D** . Y prif elfennau yw:

- Cynlluniau cefnogi marchnadoedd (cymorthdaliadau uniongyrchol i ffermwyr, gyda'r mwyafrif ohonynt yn perthyn i'r Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid) - £145.9 miliwn (dim ond £81.5 miliwn yw cyfanswm y gyllideb Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gan eithrio'r cynlluniau cefnogi'r farchnad);

- lwfansau iawndal da byw tir uchel (cynllun Tir Mynydd i gefnogi'r ardaloedd llai ffafriol yng Nghymru) - £31.7 miliwn;

- cynlluniau amaeth-amgylcheddol - Tir Gofal a'r Cynllun Ffermio Organig ynghyd â chynlluniau sydd eisoes yn bodoli megis yr Ardaloedd Amgylchedd Arbennig - £25 miliwn;

- Grantiau Marchnata a Phrosesu (ariannu'n rhannol drwy Amcan 1) - £5.8 miliwn;

- Cyswllt Ffermio - wedi ei ariannu gan ffynonellau amrywiol ond yn bennaf gan gyllideb Addasu Ffermydd - £5.2 miliwn;

- Iawndaliadau y diciáu (£1.6 miliwn).

6. Yr ydym yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn defnyddio cyllidebau Amcan 1 yn llawn eleni, yn enwedig er mwyn sicrhau na fydd arian Amcan 1 yn cael ei dynnu oddi wrthym ar ddiwedd 2002.

7. Y blaenoriaethau pwysicaf yn fy marn i ar gyfer Cylch Cynllunio'r Gyllideb yw:

- ffynonellau ychwanegol i ddiogelu iechyd anifeiliaid, gan gynnwys gweithredu ar y diciáu, o ystyried y cynnydd yn nifer yr achosion o'r afiechyd; yr ysfa, o ystyried yr angen am ddiogelu dyfodol y diwydiant defaid yng Nghymru; a throsglwyddo'r swyddogaethau iechyd anifeiliaid sy'n weddill

- yr angen am adnoddau ychwanegol i ariannu adfywio cymunedol mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys materion sy'n codi o'r ymchwil ar gymunedau gyda chydbwysedd oedran ac ar wasanaethau gwerthu gwledig. Mae yna synergedd posibl rhwng hwn a'r gwaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd gwledig.

8. Ym maes amaeth-amgylcheddol, yr ydym eisoes wedi cyhoeddi £1.5 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer Tir Gofal, ac mae'n flaenoriaeth i Gyngor Cefn Gwlad Cymru sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu gwario. Yn ogystal, yr ydym yn gwneud llawer o waith gyda'r undebau amaethyddol a buddiannau amgylcheddol ar ddatblygu cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys yn enwedig cynllun ar lefel mynediad a fyddai o fewn cyrraedd nifer fawr iawn o ffermwyr. Rhaid ystyried ariannu yn sgìl cynigion y Comisiwn ar gyfer Adolygiad Canol y Tymor, sydd i'w gyhoeddi ar 10 Gorffennaf, ond gall fod yna gyfle i dreialu mentrau gyda'r bwriad o'u cyflwyno rhyw dro yn dilyn Adolygiad canol y Tymor;

9. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y rhain a blaenoriaethau cyllidebol posibl eraill.